# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 22AIN MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 15 Mawrth 2022)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Eryl Jones-Williams
Gethin Glyn Williams

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Councillor Matthew Harris | Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw |
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Cynghorydd Brian Woolley | Cyngor Cymuned Arthog |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Merioneth |
| John Johnson | Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Peter Appleton | Cymrychiolydd Pwyllgor Grwp Gweithredu Lleol Pysgodfeyss Bae Ceredigion |
| Ian Sadler | Pwyllgor Ras y Tri Copa |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Dr John Jones-Morris | Porthmadog Consultative Harbour Committee |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 19eg o Hydref 2021 fel rhai cywir.

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 13

I ystyried

a) adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau
b) adroddiad yr Harbwrfeistr
c) astudiaeth Posibilrwydd Carthu

## 5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I ystyried materion ar gais yr Aelodau

- Materion a godwyd gan Gyngor Tref Abermaw (e-bost dyddiedig 4ydd o Fawrth 2022)

## 6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar yr 8fed o Dachwedd 2022.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 19/10/21

**Presenoldeb:**

**Aelodau:** Cynghorydd Gethin Glyn Williams, Cynghorydd Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Peter Appleton (Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion (FLAG)

**Swyddogion:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol ), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Bergitte Evans (Cymhorthydd Harbwr Abermaw) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Cynghorydd Louise Hughes, Cynghorydd Eryl Jones-Williams, Cynghorydd Brian Woolley (Cyngor Cymuned Arthog), Mr John Johnson (Cymdeithas Bysgota Abermaw a Bae Ceredigion), Cynghorydd Matthew Harris (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw), Mark James (Cymdeithas y Bad Achub) a Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain Mawrth 2021

Materion yn codi o'r cofnodion;

- **Astudiaeth Dichonoldeb** – amlygodd y Swyddog Morwrol y byddai canlyniad yr astudiaeth Dichonoldeb i'r gwaith carthu arfaethedig yn yr Harbwr yn rhoi darlun clir o beth fydd yn bosib i'r dyfodol.

- **Gofynion Deddfwriaeth yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Harbwr** - amlygodd y Swyddog Morwrol bod Harbwr Abermaw wedi ei sefydlu fel Harbwr Bwrdeistrefol o dan y Cyngor yn dilyn gofynion Deddf Cadarnhau Gorchmynion Pier a Harbwr (1930). Nodwyd nad oedd y ddeddfwriaeth yn gorfodi Awdurdod i ddatblygu harbwr ond ei gynnal yn unig. Byddai datblygu Harbwr yn fater dewisol. Yn ychwanegol amlygwyd bod Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cynnwys gofynion pellach ar Awdurdod yr Harbwr a bod angen sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddf yma cyn ystyried datblygiadau pellach

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021.**

Nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau mai braf oedd cyhoeddi blwyddyn lwyddiannus gyda chynnydd yn nifer ymwelwyr a chwsmeriaid yn adlewyrchu llacio graddol cyfyngiadau covid a rhwystrau teithio tramor.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

**Angorfeydd**

Bod 54 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn Harbwr Abermaw yn 2021

**Materion Staffio**

Canmolwyd yr holl staff (harbwr a traeth) am eu gwasanaeth yn ystod cyfnod prysur a heriol iawn. Adroddwyd eu bod wedi ymddwyn gydag agwedd rhagweithiol a braf oedd gweld cydweithio da a goruchwyliaeth ddiogel dros yr Haf. Nid oedd cwynion wedi eu derbyn. Ategwyd bod sefyllfa staff yr harbwr wedi cael ei ystyried yn fanwl ac y bwriad oedd bod yr Harbwr Feistr Cynorthwyol a'r Cymhorthydd Harbwr yn cael cynnig secondiad i aros ymlaen gyda bwriad o hysbysebu swydd wag yr Harbwrfeistr yn gynnar yn 2022.

Yn dilyn adolygiad diweddar iawn y penderfyniad yw bydd yr Harbwr Feistr Cynorthwyol yn cael dyrchafiad i swydd Harbwr Feistr ar Secondiad hyd at y 30 Fedi 2022 a bod cyfnod cyflogaeth a swydd y Cymhorthydd Harbwr hefyd yn cael ei ymestyn hyd at y 30 Fedi 2022 gyda dyrchafiad ar sail Secondiad.

**Materion Ariannol**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyllid yr Harbwr amlygodd y Swyddog Morwrol y byddai crynodeb bras o gyllideb yr Harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn cael ei rannu gyda'r aelodau yn yr wythnosau nesaf. Ategwyd bod gwariant oddeutu £6k pellach i'w wario ar faterion cynnal a chadw, ond bod y lefel incwm eleni wedi cyrraedd y targed. O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw ynghyd a ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Cychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2022/23, nodwyd bod y Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Nodwyd hefyd yr angen i ystyried costau ynni. Nid oedd y Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylid eu gweithredu - awgrymwyd y byddai'r wybodaeth ar gael cyn y Nadolig. **Swyddog Morwrol i gylchredeg crynodeb bras o gyllideb yr Harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol gyda'r aelodau**

**Astudiaeth Dichonolrwydd Carthu**

Adroddwyd y bydd angen carthu cyfaint o 70,000$m^3$ os dymunir cael y dyfnder priodol oddi fewn ardal fychan gyferbyn a cei yr harbwr. Atgoffwyd yr Aelodau bod bid ariannol gyda chefnogaeth Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion (FLAG) wedi galluogi'r Cyngor i gomisiynu astudiaeth dichonolrwydd gyda £10k ychwanegol i'r £35k ar gyfer cynllun samplo natur y llaid. Adroddwyd y bydd dadansoddiad a chanlyniadau'r cynllun yn pennu'r opsiynau posib gydag adroddiad drafft i'w ryddhau ddiwedd mis Tachwedd. Diolchwyd i Peter Appleton a gwaith FLAG am eu cefnogaeth. **Swyddog Morwrol i gylchredeg yr adroddiad drafft i'r Aelodau. Aelodau i ystyried yr adroddiad drafft a chyflwyno adborth /sylwadau / cwestiynau i'r Swyddog Morwrol gynnig i'r arbenigwyr, fel bod modd adrodd yn ôl ar y mater yng nghyfarfod Mawrth 2022.**

**Materion Cofrestru:**

I hwyluso'r broses cofrestru, gwnaed hi'n bosib i berchnogion cychod pŵer a badau dŵr personol gofrestru eu llestrau ar lein drwy wefan Cyngor Gwynedd. Adroddwyd bod y broses yn effeithiol ac wedi lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Ategwyd y bydd e-bost yn cael ei anfon i'r perchnogion i ail gofrestru ar lein ym mis Chwefror 2022. Nodwyd bod y

gwasanaeth yn parhau i gydweithio gyda’r Uned Technoleg Gwybodaeth i geisio sicrhau y bydd cynllun talu angorfeydd ar gael hefyd ar gyfer Gwanwyn 2022. **Awgrymwyd i’r Uwch Swyddog Harbwr ac yr Harbwr Feistr i gyfathrebu gyda fforymau lleol i godi ymwybyddiaeth o’r cynllun cofrestru ar lein.**

Mewn ymateb i sylw bod anawsterau cofrestru wedi bod gyda rhai yn lansio cychod dŵr personol o fannau hamdden / parciau gwyliau ar hyn yr arfordir, nodwyd bod swyddogion wedi cyfathrebu gyda rheolwyr y lleoliadau hyn gan ofyn iddynt annog perchnogion i gofrestru eu llestrau cyn lansio. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol, nodwyd mai gwan oedd yr ymateb, ond bod swyddogion yn parhau gyda’r fenter. Derbyn bod y flwyddyn wedi bod yn un anodd a bod ‘ymwelwyr newydd’ yn yr ardal - y gobaith yw y bydd y sefyllfa yn gwella. **Awgrymwyd bod y Cynghorydd Mathew Harris yn ail gysylltu gyda’r mannau hamdden / parciau gwyliau ac i’r Cynghoyrdd Rob Triggs codi’r mater yn y Cyngor Tref**

**Papur Ymgynghori’r Adran Drafnidiaeth**

Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad oedd yn ymwneud a chynnig addasiadau i ddeddfwriaeth i ddod â badau dŵr hamdden a phersonol i mewn i sgôp Deddf Llongau Masnach 1995 er mwyn sicrhau ymarfer diogel. Amlygodd y Swyddog Morwrol bod trefniadau Gwynedd ar y mater yn ddigon tynn ar wahân i rai safleoedd preifat. Anogwyd yr Aelodau i gyflwyno ymateb unigol erbyn dyddiad cau 1 Tachwedd 2021, ond cyfeiriwyd at ymatebion Pwyllgor Harbwr Pwllheli a Porthmadog i’r ymgynghoriad.

Amlinellwyd prif elfennau’r ymgynghoriad a nodwyd bod rhai addasiadau yn gymhleth a hirwyntog. Cynigiwyd, cefnogi opsiwn 3, sef llunio deddfwriaeth dan adran 112 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys badau dŵr hamdden a badau dŵr personol gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau hyfforddiant i ddefnyddwyr a galw am godi’r terfyn oedran ar gyfer gyrru badau dŵr hamdden a badau dŵr personol

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr Cynorthwyol yn crynhoi’r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

Diolchodd y Swyddog Morwrol i staff Harbwr Abermaw am ei gwaith dros y tymor - ategwyd gwerthfawrogiad gan yr Aelodau gan adrodd mai braf oedd cael sefydlogrwydd staff a chefnogaeth i’r gymuned

Adroddwyd bod Gwasanaeth wedi derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymhorthion Mordwyo yn Abermaw a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod ar 28 Medi 2021. Bydd adroddiad ar eu canfyddiadau yn dilyn.

Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol sy'n ymwneud â'r marciau mordwyo yn y sianel.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

2. **Ymateb fel a ganlyn i bapur ymgynghori’r Adran Drafnidiaeth “Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft”:-**

   - **Bod y pwyllgor hwn yn cefnogi opsiwn 3, sef llunio deddfwriaeth dan adran 112 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys badau dŵr hamdden a Badau Dwr Personol.**

- **Pwysleisio pwysigrwydd sicrhau hyfforddiant i ddefnyddwyr a galw am godi'r oedran ar gyfer gyrru badau dŵr hamdden a Badau Dwr Personol**

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**Clwb Hwylio Meirionydd**

Amlygwyd bod cynrychiolydd y Clwb, Mrs Wendy Ponsford yn gadael yr ardal ac felly bydd angen i'r Clwb hwylio enwebu rhywun yn ei lle. Adroddwyd bod Mrs Ponsford wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor ers blynyddoedd a'i chyfraniad bob amser yn frwdfrydig a gwerthfawrogol. Dymunwyd y gorau iddi yn ei chartref newydd. **Swyddog Morwrol i anfon neges ar ran y Pwyllgor yn diolch i Mrs Wendy Ponsford am ei gwasanaeth.**

Nododd Mr John Smith y byddai'n adrodd ar weithgareddau'r Clwb hyd nes bydd cynrychiolydd wedi ei gadarnhau yn ffurfiol.

**Bwîs ar y traethau**

Adroddwyd nad oedd yn ymarferol gosod bwîs i atal cychod pŵer ddod yn agos i'r traeth gan y byddai'r bwîs eu hunain yn symud gyda'r llanw ac yn dod at y lan. Nodwyd yn y gorffennol bod hyd at 40 o fwîs wedi eu gosod ond nifer wedi eu colli. Gellid dadleu y byddai modd gosod bwîs cryfach / trymach ond bod angen cwch arbenigol i wneud y gwaith

Awgrymwyd wrth i berchnogion gofrestru y gellid eu hannog i gadw oddeutu 100m o'r traeth. Os na fydd cydymffurfiaeth, yna dylid nodi rhif cofrestru a dilyn i fyny.

**Nofio Awyr agored**

Bod cynnydd yn y diddordeb o gael adnodd nofio awyr agored yn yr Harbwr - awgrym gan y Clwb Hwylio i greu parth gwahardd cychod dŵr fel bod modd creu ardal i nofio drwy'r flwyddyn. **Cynigiwyd cynnal trafodaethau lleol i geisio treialu'r fenter gan bwysleisio** petai bwîs yn cael eu defnyddio, byddai rhaid eu gosod heb ragfarn ac y dylai nofwyr gymryd cyfrifoldeb a gwisgo yn addas

**Motor Cross 2021**

Adroddwyd bod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus ond sylw wedi ei wneud am yr amseriad. **Swyddog Morwrol i ysgrifennu at y trefnwyr gan awgrymu dyddiad ar gyfer 2022.** Y dyddiad i'w gylchredeg gydag Aelodau'r Pwyllgor a Chyngor Tref Abermaw am sylwadau cyn cadarnhau.

**Tywod ger y compownd**

Cais i ystyried pris ar gyfer y gwaith **- awgrym i gynnal cyfarfod yn lleol i drafod**

**6. CYFARFOD NESAF**

22 Mawrth 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:55pm

# Eitem 4

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **22 Mawrth 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbwr** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y cynhelir archwiliad o angorfeydd Ymwelwyr yn yr harbwr cyn cyfnod y Pasg, yn amodol i ymrwymiadau'r contractwr angorfeydd ac amodau'r tywydd ar y pryd.

2.2 Y llynedd, cyflwynwyd system gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol Cyngor Gwynedd drwy drefniant ar-lein, oedd yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu trwyddedau cofrestru a lansio. Yn dilyn llwyddiant y trefniant yma, bydd angen i gwsmeriaid gofrestru drwy wefan Cyngor Gwynedd, ar y system gofrestru a thalu ar-lein fydd yn agor ar 31 Mawrth 2022.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.1.1 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth ei hun yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw gan gynnal archwiliad allanol o'r cod gan yr unigolyn dynodedig, sy'n annibynnol o Gyngor Gwynedd.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol epidemig diweddaraf amrywiolyn Omicron y Coronafeirws i sicrhau diogelwch yr harbwr gan gydymffurfio gyda

Rheoliadau Coronafeirws presennol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau yn swyddfa'r harbwr yn parhau yn eu lle, gan gynnwys y sgrin Persbecs ar gownter y cyhoedd i sicrhau diogelwch y staff yn ystod ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd.

4.2 Mae'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol i ddarparu cymorth o ran y gwaith sydd ei angen yn Harbyrau Aberdyfi a Phorthmadog. Bydd rhagor o waith yn cael ei ymgymryd yn benodol mewn perthynas ag ystolion yr harbwr a'r marciau mordwyo cyn i gyfnod prysur yr haf ddechrau.

4.3 Mae'n drist adrodd y bydd yr Harbwrfeistr presennol yn gadael ei swydd ar 1 Ebrill 2022. Mae’r Uned Forwrol yn y broses o hysbysebu'r swydd. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r Harbwrfeistr yn ei gyrfa yn y dyfodol ac yn diolch yn ddiffuant iddi am ei hegni, ei brwdfrydedd a'r ffordd broffesiynol yr ymgymerodd â rôl yr Harbwrfeistr ers iddi gael ei phenodi.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft yn Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol am dymor 2022/23. Yr arwyddion presennol yw bydd ffioedd a thaliadau yn codi yn unol â graddfa chwyddiant. Mae copi o'r ffioedd arfaethedig ar gael er gwybodaeth. Nid yw’r rhain wedi eu cadarnhau.

**6.** **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Abermaw wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i hadroddiad yn atodol.

**7**. **Astudiaeth Garthu.** Mae copi o’r astudiaeth dichonoldeb carthu terfynol a gynhaliwyd gan *'Haskoning Ltd'* ar ran Cyngor Gwynedd wedi cael ei gylchredeg i holl Aelodau'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **22 Mawrth 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwr Feistr** |
| **AWDUR** | **Harbwrfeistr Abermaw** |

**1. Materion Mordwyo**

1.1. Mae cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at Harbwr Abermaw wedi aros yn eithaf cyson dros gyfnod y gaeaf. O ganlyniad, nid oedd angen symud unrhyw un o'r marciau mordwyo o'u safleoedd presennol.

1.2 Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel fordwyo yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliadau mwyaf addas.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw.

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 9/2021: Nid yw cymhorthydd mordwyo Starbord 'Bar buoy' Rhif 1 sydd ar safle 52°42.717N, 004°04.261'W, ar ei safle priodol.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 1/2022: Nid yw cymhorthydd llaw Port Rhif 4 sydd ar safle 52°42.738'N - 004° 04.009'W ar ei safle priodol.

1.4. Mae'r Gwasanaeth yn hysbysu y bydd y ddau farc mordwyo uchod yn eu lle ac yn hollol weithredol cyn gynted â phosib, yn dibynnu ar ymrwymiadau'r contractwr mordwyo ynghyd ag amodau tywydd a llanw.

**2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae epidemig y Coronafeirws sy'n effeithio'r boblogaeth ddynol yn dal mewn cylchrediad, ac amrywiolyn Omicron yw straen mwyaf cyffredin y clefyd. Yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Coronafeirws Llywodraeth Cymru, bydd staff yn parhau i sicrhau bod amgylchedd yr harbwr yn dal yn le diogel i bawb ei fwynhau, yn y tymor prysur disgwyliedig sydd i ddod.

2.2 **Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd:** Yn unol â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac i sicrhau arferion a gweithredoedd gwaith diogel, bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r gweithrediadau pysgota a fferi yn harbwr Abermaw. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cychod a ddefnyddir, ynghyd â'r tasgau a'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig gyda'r gweithgareddau hynny yn yr harbwr, gan gynnwys storio offer pysgota ar flaen yr harbwr.

2.3 **Angorfeydd yr Harbwr:** Cafodd angorfeydd 'trot' yn yr harbwr, sy'n eiddo i'r Cyngor, ac sydd wedi'u lleoli gyferbyn â swyddfa'r harbwr eu hadnewyddu'n llwyr y llynedd, a chafodd y gadwyn daear (*ground chain*), angorau cysylltiedig, cadwyni codi a dolenni eu newid ar yr un pryd. Cyn y tymor prysur disgwyliedig sydd i ddod, bydd yr Harbwrfeistr

a'i chymhorthydd yn archwilio llinell o angorfeydd 'trot' llai, sy'n eiddo i'r Cyngor, ac sydd wedi'u lleoli i'r gogledd-ddwyrain o strwythur y pontŵn. Bydd gofyn hefyd i'r contractwr angorfeydd gynnal archwiliad blynyddol o angorfeydd ymwelwyr a leolir yn y prif sianel.

2.4 Mae'r Gwasanaeth yn pwysleisio bod angen i berchnogion yr holl gychod sydd ar angorfeydd preifat yn yr harbwr ddychwelyd y ffurflen cadarnhau angorfa ynghyd â'r ffurflen archwilio angorfa i swyddfa'r Harbwrfeistr ar y cyfle cyntaf posib, i baratoi ar gyfer y tymor nesaf. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith gweinyddol fwrw ymlaen ac i archwilio'r angorfeydd. Mae'r Gwasanaeth yn parhau yn ymroddedig i symud unrhyw angorfa segur, sydd ddim yn cael ei defnyddio neu unrhyw angorfa anaddas i'w diben neu unrhyw angorfa sydd heb ei phennu i gwch a bod y taliadau heb eu talu.

2.5 **Cychod Gweini:** Hoffai'r Gwasanaeth hefyd atgoffa rhai sy'n dal angorfa o'r angen i gofrestru unrhyw gwch gweini a ddefnyddir gyda'u hangorfa, yn swyddfa'r harbwr. Dylai pob cwch gweini gael eu marcio a bod yn hawdd i'w hadnabod efo'r cwch maent yn gweithredu iddynt.

## 3 Cynnal a Chadw

3.1 Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae staff yr harbwr wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar y cymhorthion mordwyo. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu'r *'Buoy Fairway'* newydd fydd yn barod i gael ei leoli ar ddechrau'r tymor prysur. Mae'r ddau farc mordwyo nad ydynt yn eu lleoliad priodol ar hyn o bryd wedi cael eu hadnewyddu ac wedi cael eu paratoi i ddychwelyd i'r sianel mordwyo.

3.2 Mae staff yr harbwr wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar gwch patrôl yr harbwr ac mae injans a mecanwaith llywio cychod wedi cael eu gwasanaethu yn ddiweddar er mwyn paratoi ar gyfer y tymor sydd i ddod.

3.3 Gwnaed gwaith cynnal a chadw ar hysbysfyrddau'r harbwr a'r promenâd ac roedd rhai angen coed newydd a gwaith saer. Tynnwyd pren ffender wedi torri oddi ar ochrau ystolion yr harbwr ac rydym yn disgwyl i'r pren newydd gael ei osod.

3.4 Yn ogystal â gwaith cynnal a chadw cyffredinol o gwmpas yr harbwr sy'n cynnwys cael gwared ar dywod a malurion, peintio a golchi pŵer (*power washing*), mae staff wedi bod yn ymgymryd â phrosesau gweinyddol gan gynnwys diweddaru asesiadau risg yr harbwr.

## 4. Materion Eraill

4.1 **Ymsuddiant yr Harbwr:** Ar 27 Ionawr 2022, cafodd difrod ymsuddiant i wal y cei o dan gerddi'r draphont ac o gwmpas yr harbwr ei archwilio gan staff Ymgynghoriaeth Gwynedd yng nghwmni staff o gwmni dylunio, pensaernïaeth, cynllunio a pheirianneg ARUP. Yn amodol ar gadarnhad cyllid ar gyfer y prosiect, gobeithir y bydd gwaith i newid y strwythurau drylliedig yn dechrau'n fuan, dan nawdd adran Ymgynghoriaeth Gwynedd.

4.2 **Carthu'r Harbwr:** Disgwylir canlyniad astudiaeth dichonoldeb ynglŷn ag opsiynau carthu'r harbwr, a'r materion sy'n ymwneud â sicrhau unrhyw ganiatâd angenrheidiol ar gyfer gweithgarwch carthu, yn fuan. Ar ôl ei dderbyn, bydd y ddogfennaeth yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol i'w hystyried.

4.3 **Stormydd Tymhorol:** Teimlwyd effeithiau Storm 'Eunice' yn yr harbwr ar 18 Chwefror 2022. Fe wnaeth y storm, a arweiniodd at anawsterau teithio eang, ysgolion yn cau a gadael miloedd o gartrefi heb drydan o gwmpas y wlad, achosi llifogydd o gwmpas ardal yr harbwr ar lanw uchel. Fodd bynnag, ni chafwyd difrod sylweddol i isadeiledd yr harbwr nac i unrhyw gwch.

4.4 **Lloc y Pysgotwyr:** Bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r safleoedd dyranedig yn Lloc y Pysgotwyr i sicrhau bod pob deunydd diangen yn cael ei symud o'r safle. Am resymau iechyd a diogelwch, hoffai'r Gwasanaeth atgoffa pawb sydd â safle yn y Lloc o'r angen i gadw safleoedd unigol yn lan a thaclus o ran edrychiad.

4.5 **Parcio yn yr Harbwr:** Mae'r safleoedd parcio ar Ffordd y Compownd wedi cael eu marcio i helpu Gweithwyr Masnachol ar y dŵr i ddal ati gyda'u gweithgareddau mewn amgylchedd harbwr prysur, yn arbennig yn ystod yr haf. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r posibilrwydd o godi ffi am barcio yn yr ardal ac adfer y rhwystr traffig ar waelod ffordd, er mwyn newid y strwythur presennol sydd wedi gwisgo.

4.5.1 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori y bydd yn parhau i geisio cymorth gan swyddogion gorfodaeth Cyngor Gwynedd pan a phryd fo angen, i hwyluso mynediad rhydd, dirwystr i'r llithrfa i ddefnyddwyr yr harbwr o ran y marciau ffordd ger adeilad yr *'SS Dora'*.

4.6 **Pontŵn yr Harbwr.** Ar ôl i Grŵp Ymddiriedolaeth Cymuned Abermaw ddod i ben, fe wnaeth yr Awdurdod Harbwr feddiannu gwarcheidwadaeth dros dro o strwythur y pontŵn yn yr harbwr. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu gwaith diflino yn hyrwyddo'r harbwr er budd pob defnyddiwr harbwr.

4.6.1 Ar ôl i strwythur y pontŵn gael ei archwilio gan staff y Gwasanaeth, barnwyd ei bod yn angenrheidiol cau'r cyfleuster dros dro am resymau diogelwch hyd nes y gallai archwiliad mwy trylwyr o'r strwythur gael ei wneud gan wneuthurwr pontŵn cymeradwy, a phenderfyniad gael ei wneud ar ei ddyfodol.

4.6.2 Mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Tref, gofynnwyd i gwmni 'Intermarine' gynnal archwiliad diogelwch o'r pontŵn ac yna ddarparu adroddiad strwythurol ar eu canfyddiadau. Disgwylir yr adroddiad gan gwmni *'Intermarine'* ar hyn o bryd.

4.7 **Llithrfa Newydd:** Dymuna'r Gwasanaeth ddod â chynnig gan Glwb Hwylio Meirionnydd i sylw aelodau'r pwyllgor, i adeiladu llithrfa newydd fyddai'n darparu pwynt mynediad i draeth *'Bath House'*, o bwynt ar y promenâd yn union gyferbyn â giatiau mynediad compownd storio'r Clwb Hwylio. Mae'r Gwasanaeth yn deall bod y Clwb Hwylio yn bwriadu chwilio am gyllid ar gyfer y prosiect drwy'r *'Small Scale Coastal Infrastructure Scheme*' (*SSCIS*).

4.8 **Pont Reilffordd Abermaw:** Bydd gwaith atgyweirio ar strwythur y bont reilffordd hanesyddol sy'n croesi aber yr afon Mawddach o fewn cyfyngiadau'r harbwr yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Cynghorwyd y Gwasanaeth y bydd deunyddiau yn cael eu symud i ac o'r bont o fewn yr harbwr yn digwydd drwy gydol tymor y gwanwyn/haf 2022.

4.8.1 Yn ystod mis Medi 2022, bydd pontwnau dur 4m x 12m yn cael eu defnyddio i adnewyddu darnau metel a phren ar gyfer y bont. Bydd y strwythurau'n cael eu hadeiladu mewn lloc penodol ar y promenâd gan eu symud gyda lori i harbwr Aberamffra

lle byddant yn cael eu rhoi ar bontwnau a'u cludo at y bont. Bydd mynediad gan y cyhoedd i harbwr Aberamffra yn cael ei reoli gan y contractwr.

4.8.2 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gysylltu â rheolwyr y tîm adeiladu sy'n ymwneud â'r prosiect ac yn cynghori defnyddwyr yr harbwr am unrhyw amhariad posib i weithrediadau arferol yr harbwr.

5. **Digwyddiadau**

5.1 Hyd yma, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn hysbysiadau o flaen llaw o ddigwyddiad gwerthu dingis ar 3 Mehefin 2022, gŵyl farcud y bwriedir ei chynnal ar y traeth ar 2 a 3 Gorffennaf 2022, a digwyddiad *'Motorcross'* y bwriedir ei gynnal ar benwythnos 15/17 Hydref 2022. Rhagwelir y bydd Ras Hwylio flynyddol y Tri Chopa hefyd yn cael ei chynnal yn yr harbwr eleni ar 9 Gorffennaf 2022. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad gan y trefnwyr.

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd. Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r sefyllfa o ran Coronafeirws ac unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.